

SL(6)023 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profi cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr").

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ychwanegu pedwar digwyddiad at Atodlen 4 (Rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon). Gall unigolyn derfynu cyfnod o hunanynysu i gystadlu yn y digwyddiadau chwaraeon a restrir yn Atodlen 4 neu hyfforddi ar eu cyfer, neu ddarparu hyfforddiant neu gefnogaeth arall i berson sy'n cystadlu yn y digwyddiadau chwaraeon. Y pedwar digwyddiad a ychwanegwyd at Atodlen 4 yw:

- Cylchdaith Golff Ewrop – Pencampwriaeth Agored Cazoo
- R & A – Cwpan Curtis;
- Red Bull Hardline; a
- The Tour of Britain.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwr fel nad yw'n ofynnol i weithredwr sicrhau bod teithiwr ar wasanaeth perthnasol, sy'n berson sy'n cael ei orfodi'n gyfreithlon i deithio yng nghwrs estraddodiad, trosglwyddiad carcharor neu allgludiad, yn meddu ar hysbysiad o:

- ganlyniad prawf cyn ymadael negatif; neu
- y trefniadau a wnaed i gydymffurfio ag unrhyw ofynion o ran profion ar ôl cyrraedd.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy'n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.



Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyriad posibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. I'r graddau y gallant o bosibl gyffwrdd ag unrhyw hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'r farn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir ei chyfiawnhau fel ymyrraeth angenrheidiol a chymesur i gyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y maent yn cyffwrdd â hawliau unigol."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn fod y rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog



Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn [llythyr at y Llywydd, dyddiedig 12 Gorffennaf 2021](#).

Yn benodol, nodwn yr hyn a ganlyn yn y llythyr:

“Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod, bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol; o ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.”

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

